Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Diwydiant, Marchnata a Hysbysebu

Fepio




# Marchnata a Hyrwyddo Fêps

Mae pryderon ynghylch marchnata a hyrwyddo dyfeisiau fepio a sut y gallent apelio at blant a phobl ifanc.

Mae fêps ar gael mewn llawer o wahanol flasau a lliwiau, gyda deunydd pecynnu a dyluniadau a all fod yn ddeniadol iawn i bobl ifanc, fel cymeriadau cartwnau ar y deunydd pecynnu a dyfeisiau sydd wedi'u dylunio i edrych fel eitemau bob dydd, fel pennau amlygu.

Roedd fêps tafladwy (untro) yn rhad, yn hygyrch, ac yn boblogaidd ymhlith pobl ifanc o'r blaen, a fu’n arwain at gynnydd sydyn mewn fepio ymhlith pobl ifanc. Oherwydd eu fforddiadwyedd, eu hapêl, a'u niwed amgylcheddol, mae gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy bellach wedi'i wahardd yng Nghymru (ers mis Mehefin 2025), o dan reoliadau amgylcheddol newydd.

Gall hyn fod yn ddryslyd, gan y gall edrych fel bod fêps yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni ddylai plant a phobl ifanc ddefnyddio fêps, ac mae'n anghyfreithlon gwerthu fêps sy'n cynnwys nicotin i unrhyw un o dan 18 oed.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Tactegau'r Diwydiant

Er mwyn helpu i sicrhau dyfodol hirdymor y diwydiant tybaco, mae cwmnïau tybaco trawswladol (TTCs) wedi buddsoddi mewn amrywiol gynhyrchion nicotin a thybaco newydd, gan gynnwys e-sigaréts/fêps, a'u datblygu a'u marchnata.

Mae cwmnïau tybaco wedi cyfeirio at gynhyrchion mwy newydd fel fêps fel 'cynhyrchion y genhedlaeth nesaf'. Mae'r farchnad fêps yn esblygu'n gyflym i greu cynhyrchion arloesol ac apelgar, fel fêps gyda gallu Bluetooth a sgriniau digidol i addasu gosodiadau, a fêps lle gellir addasu'r blasau.

Mae hysbysebu fêps/e-sigaréts ar y teledu, y radio, ac mewn papurau newydd a chylchgronau wedi'i gyfyngu (gweler22 Sigaréts Electronig - ASA | CAP). Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiadau hyn mor helaeth â'r rhai a gymhwysir i gynhyrchion tybaco (gwelerAdran 21 o god yr ASA).



# Tactegau Marchnata

Mae marchnata gan y diwydiant wedi cysylltu'n aml â'r tueddiadau a'r digwyddiadau diweddaraf, er enghraifft defnyddio 'buddugoliaeth' fel thema ar gyfer hysbysebion sigaréts yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a defnyddio iaith 'torches for freedom' i annog menywod i ysmygu ar yr un pryd ag ymdrechion menywod i sicrhau cydraddoldeb â dynion, a'r bleidlais yn y 1920au.

Yn ystod y pandemig COVID-19, rhoddodd cwmnïau tybaco a fêps offer meddygol a PPE i ysbytai mewn sawl gwlad yn y byd fel rhan o ymdrechion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i feithrin delwedd gyhoeddus gadarnhaol.

Mae cwmnïau fêps a thybaco yn defnyddio dylanwadwyr yn y cyfryngau i hysbysebu i ddefnyddwyr iau a phobl nad ydynt yn ysmygu. Efallai eich bod wedi gweld riliau ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac Instagram yn cyflwyno blasau a dyluniadau newydd.

Mae'r diwydiant fêps hefyd yn targedu grwpiau oedran iau trwy noddi digwyddiadau sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc a rhoi samplau am ddim, er enghraifft mewn gwyliau cerddoriaeth.



# Beth yw'r cysylltiadau rhwng cwmnïau tybaco a chwmnïau fêps?

Wrth i niwed sigaréts gael ei ddeall yn well ac i ddeddfau a rheoliadau gael eu tynhau, mae elw cwmnïau tybaco wedi dechrau crebachu.



Dechreuodd cwmnïau tybaco brynu brandiau e-sigaréts presennol a datblygu eu cynhyrchion e-sigaréts eu hunain o 2012 ymlaen.

Mae cwmnïau tybaco mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y farchnad fepio sy'n tyfu'n gyflym. Maent wedi sefydlu pwyntiau dosbarthu, ac mae ganddynt yr arian i ddarparu adnoddau a thalu am gostau marchnata.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru